

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol  
Social research

Number: 17/2015



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Gwerthusiad o'r cymorth ariannol i fyfyrwyr Addysg Bellach yng Nghymru *Adroddiad Strategol*



# **Gwerthusiad o'r cymorth ariannol i fyfyrwyr Addysg Bellach yng Nghymru *Adroddiad Strategol***

**Ysgrifennwyd gan Nia Bryer, Old Bell 3 Cyf**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Joanne Corke

Gwybodaeth a Gwasanaethau Dadansoddol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 029 2080 1138

[Joanne.Corke@wales.gsi.gov.uk](mailto:Joanne.Corke@wales.gsi.gov.uk)



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 25 Mawrth 2015

ISBN: 978-1-4734-3302-1

© Hawlfraint y Goron 2015

## Tabl cynnwys

<b>RHESTR ACRONYMAU .....</b>	<b>2</b>
<b>1 CEFNDIR.....</b>	<b>3</b>
<b>2 TROSOLWG O GYNLLUNIAU CYMORTH ARIANNOL ADDYSG BELLACH YNG NGHYMURU .....</b>	<b>5</b>
<b>3 CANFYDDIADAU ALLWEDDOL O'R GWERTHUSIADAU.....</b>	<b>12</b>
<b>4 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION .....</b>	<b>26</b>

## **Rhestr acronymau**

CAwG	Cronfa Ariannol wrth Gefn
GDC	Grant Dysgu'r Cynulliad - Addysg Bellach
EMA	Lwfans Cynhaliaeth Addysg
SLC	Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr
TGAU	Tystysgrif Genedlaethol Addysg Uwchradd

# 1 CEFNDIR

## Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf, mewn cysylltiad â Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) a Dateb, gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o gyllid myfyrwyr Addysg Bellach ar draws Cymru<sup>1</sup> gyda phwyslais neilltuol ar adolygu cynlluniau cyllido y Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA) a Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (GDC (AB))<sup>2</sup>.
- 1.2 Yr adroddiad hwn yw'r trydydd o dri adroddiad a baratowyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn a bwriedir iddo fod yn adroddiad strategol cynhwysfawr ar gyllid myfyrwyr ar draws Addysg Bellach yng Nghymru. Ffocws yr adroddiad cyntaf oedd y cynllun LCA<sup>3</sup> a chanolbwyntiodd yr ail ar y cynllun GDC (AB)<sup>4</sup>. Mae'r adroddiad hefyd yn defnyddio canfyddiadau gwerthusiad blaenorol a gynhaliwyd gan Old Bell 3 ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Gronfa Ariannol wrth Gefn (CAwG)<sup>5</sup>.
- 1.3 Nod penodol yr adroddiad yma yw rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru yng nghyswllt cymorth ariannol i fyfyrwyr tu allan i Addysg Uwch a gwneud argymhellion ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. Yr amcanion ar gyfer yr adroddiad hwn, a aralleiriwyd o'r gwahoddiad i dendro yw:

---

<sup>1</sup> Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, dylid ystyried bod cyfeiriadau at gyllid i fyfyrwyr Addysg Bellach yn cynnwys cymorth ariannol ar gyfer disgyblion 16-19 oed sy'n astudio mewn chweched dosbarth ysgolion.

<sup>2</sup> O flwyddyn academaidd 2014/15 caiff ei galw yn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach)

<sup>3</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-education-maintenance-allowance-assembly-learning-grant/?lang=cy>

<sup>4</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-education-maintenance-allowance-assembly-learning-grant/?lang=cy>

<sup>5</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-financial-contingency-fund/?lang=cy>

- Ymchwilio i ba raddau y mae'r pecyn o gymorth ariannol i fyfyrwyr Addysg Uwch yn cyfrannu at agenda ehangu cyfranogiad;
- Cydgordio canfyddiadau'r tair astudiaeth gwerthuso ar gynlluniau LCA, GDC (AB) a CAwG (AB) i amcangyfrif cyfanswm effeithiau cymorth ariannol i fyfyrwyr Addysg Bellach ;
- Ymchwilio i ba raddau y mae'r pecyn o gymorth ariannol i fyfyrwyr Addysg Bellach yn cyfrannu at ac yn gydnaws â blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru;
- Defnyddio'r adolygiad o ddogfennau ar gymorth ariannol tebyg sydd ar gael i fyfyrwyr sydd â'u cartrefi yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- Ystyried meysydd ar gyfer gwella a gwneud argymhellion ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

### **Strwythur yr Adroddiad yma**

1.4 Yn yr adroddiad byr yma rydym yn gyntaf (yn Adran 2) yn cyflwyno trosolwg o dri chynllun cymorth ariannol Llywodraeth Cymru sydd ar gael ar draws y sector Addysg Bellach, gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael. Wedyn (yn Adran 3) trafodwn ganfyddiadau allweddol yr ymchwil a gynhaliwyd ar y tri chynllun cymorth ariannol hyn, gan ategu'r argymhellion a wnaed ar gyfer pob cynllun unigol. Yn olaf (yn Adran 4), cyflwynwn ein casgliadau cyffredinol a gwneud argymhellion ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

## **2 TROSOLWG O GYNLLUNIAU CYMORTH ARIANNOL ADDYSG BELLACH YNG NGHYMRU**

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r tri chynllun cymorth ariannol, sef y cynlluniau LCA, GDC (AB) a CaWG (AB).

### **Cynllun y Lwfans Cynhaliaeth Addysg**

2.2 Mae cynllun y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) yn lwfans ariannol sydd ar gael i rai 16, 17 ac 18 oed sy'n byw yng Nghymru i'w cymell i aros mewn addysg ar ôl oedran gorfodol ymadael â'r ysgol. Fe'i cyflwynwyd gyntaf ym mlwyddyn academaidd 2004/05. Y mae ar hyn o bryd yn lwfans wythnosol o £30 y myfyriwr, yn gysylltiedig â phresenoldeb boddhaol a chyflawni nodau dysgu a gytunwyd, ac fe'i telir bob bythefnos i fyfyrwyr cymwys sy'n mynychu ysgolion cydnabyddedig neu Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru neu fan arall yn y Deyrnas Unedig.

2.3 Nod y cynllun LCA yw rhoi cymhelliant ariannol i bobl ifanc o aelwydydd incwm isel barhau mewn addysg lawn-amser ar ôl oedran addysg orfodol, gan felly fynd i'r afael â'r cysylltiad presennol rhwng incwm isel a chynnydd addysgol. I fod yn gymwys, mae'n rhaid i fyfyrwyr fodloni meini prawf neilltuol yn cynnwys bod yn 16, 17 neu 18 oed ar y 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, a bod yn astudio ar sail lawn-amser yn yr ysgol neu am o leiaf 12 awr dan arweiniad yr wythnos mewn Sefydliad Addysg Bellach cydnabyddedig a bod â'u cartref yng Nghymru. Caiff cymhwyster hefyd ei bennu gan incwm aelwydydd. Dim ond os yw incwm eu haelwyd yn £20,817 neu lai y gall myfyrwyr dderbyn cyllid (os mai hwy yw'r unig blentyn dibynnol yn yr aelwyd), neu £23,077 neu lai os oes un neu fwy o ddibynyddion ychwanegol 16 oed neu iau, neu 20 oed ac iau ac mewn addysg lawn-amser neu hyfforddiant ac yn gymwys am fudd-dal plant ar yr aelwyd.

- 2.4 Caiff tua hanner yr holl fyfyrwyr llawn-amser a ddaw o fewn meini prawf oedran LCA eu cefnogi drwy'r Cynllun, gyda'r gyfran yma'n amrywio o tua thraean (32%) o fewn ysgolion i bron ddau-draean (59%) mewn Sefydliadau Addysg Bellach. Benywod yw ychydig dros hanner y rhai sy'n derbyn LCA. Daeth bron dri-chwarter (72 y cant) yr holl geisiadau a wnaed am lwfans LCA gan ymgeiswyr gydag incwm aelwyd o £20,817 neu lai ac roedd chwarter (28 y cant) gan hawlwyr gydag incwm aelwyd o rhwng £20,817 a £23,077.
- 2.5 Gwariwyd £25 miliwn ar y cynllun LCA yng Nghymru yn ystod 2012/13 yn cefnogi ychydig dros 30,000 o dderbynwyr, yn gyfwerth â £826 fesul myfyriwr a gafodd gymorth.
- 2.6 Dirprwywyd gweinyddiaeth cynllun LCA Cymru i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) drwy hysbysiad penodiad blynyddol gyda chytundebau lefel gwasanaeth a gytunwyd rhwng yr SLC a Llywodraeth Cymru. Gwnaiff myfyrwyr gais uniongyrchol i'r SLC (dan frand Cyllid Myfyrwyr Cymru) am gymorth, ac mae'r rhai a gaiff grant LCA yn ymrwymo i gytundeb dysgu gyda'u hysgol neu goleg.
- 2.7 Canfu'r gwerthusiad o LCA fod y rhai sy'n derbyn y lwfans yn fwy tebygol o fod yn fenywod ac iddynt fod â hawl i brydau ysgol am ddim yn ogystal â bod yn llai tebygol o fod wedi sicrhau lefelau cymharol uchel o gyrhaeddiad mewn TGAU o gymharu â rhai na dderbyniodd LCA mewn Addysg Bellach. Mae 40 y cant o'r sawl sy'n derbyn LCA yn ymrestru ar gyfer arholiadau Safon Uwch tra bod 47 y cant yn ymrestru ar gyfer cymwysterau galwedigaethol<sup>6</sup> - 13 y cant ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ar lefel 3 neu 4 a 30 y cant ar gyfer cymwysterau ar Lefel 2 neu islaw<sup>7</sup>.

---

<sup>6</sup> Ni fu modd dynodi cwrs astudiaeth ar gyfer y rhan fwyaf o'r 13% arall a dderbyniodd LCA oherwydd cyfyngiadau yr ymarferiad cyfateb data ar gyfer yr astudiaeth.

<sup>7</sup> Astudiodd gweddill y fyfyrwyr gyrsiau chweched dosbarth galwedigaethol neu gyrsiau cyfun galwedigaethol eraill.



2.8 Canfu ein gwerthusiad fod LCA yn cefnogi ac yn cyfrannu at ystod o bolisiau Llywodraeth Cymru sy'n anelu i ehangu mynediad i addysg, gostwng y gyfradd o bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac yn trin y cysylltiad presennol rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Nid yw wedi alinio gystal gydag amcan Llywodraeth Cymru o wella dilyniant i Addysg Uwch, er bod traean o'r rhai sy'n derbyn LCA yn symud ymlaen i Addysg Uwch<sup>8</sup>.

### **Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach)**

2.9 Mae Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (GDC (AB)) yn gynllun gweinyddol, a gyflwynwyd gyntaf ym mlwyddyn academaidd 2002/03 i gefnogi oedolion 19 oed a throsodd sy'n fyfyrwyr Addysg Bellach. Mae'n lwfans gyda phrawf modd a ddyfernir i fyfyrwyr sy'n oedolion gydag incwm aelwyd o £18,370 neu lai y flwyddyn.

2.10 Nod y Cynllun yw rhoi cymorth ariannol i oedolion sy'n fyfyrwyr a allai fel arfer gael anawsterau ariannol wrth ddilyn cyrsiau Addysg Uwch ac felly gymell rhai o aelwydydd incwm is i aros mewn Addysg Bellach neu ddychwelyd i Addysg Bellach.

2.11 Mae ar gael i fyfyrwyr llawn-amser a hefyd ran-amser sydd â'u cartrefi yng Nghymru ac sy'n astudio mewn darparwydd dysgu sy'n derbyn cyllid cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Mae myfyrwyr llawn-amser yn gymwys ar hyn o bryd am hyd at £1,500 o gymorth tra bo myfyrwyr rhan-amser yn gymwys am hyd at £750 y flwyddyn. Mae swm y cyllid y gall myfyriwr ddisgwyl ei dderbyn yn dibynnu ar incwm eu haelwyd yn ogystal ag os ydynt yn astudio ar sail llawn-amser neu ran-amser, fel y dangosir yn Nhabl 1 islaw:

---

<sup>8</sup> Dengys y data diweddaraf i 33 y cant o fyfyrwyr a dderbyniodd LCA ddiwethaf yn 2011/12 symud ymlaen i Addysg Uwch.

**Tabl 1: Y meini prawf cyfredol ar gyfer GDC (AB) (2013/14)**

Oriau cyswllt cronus yn y flwyddyn academaidd	Incwm aelwyd			
	£0-£6,120	£6,121-£12,235	£12,236-£18,370	£18,371 ac uwch
275-499	£760	£450	£300	Dim
500 neu fwy	£1,500	£750	£450	Dim

Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru

2.12 Mae incwm aelwyd a ystyrir wrth ddyfarnu GDC (AB) yn dibynnu os yw'r dysgwr yn fyfyrwr dibynnol neu annibynnol. Ystyrir myfyrwr yn fyfyrwr 'annibynnol' os ydynt yn bodloni o leiaf un o nifer o feini prawf - yn cynnwys p'un ai ydynt yn 25 oed neu drosodd, yn gyfrifol am blentyn, ac yn byw ar wahân i'w rhieni neu wedi eu cynnal eu hunain yn ariannol am fwy na thair blynedd.

2.13 Dim ond cyfran fach iawn o'r holl oedolion 19 oed a throsodd sy'n fyfyrwr Addysg Bellach (4 y cant yn ystod 2012/13) sy'n derbyn cymorth GDC (AB). Mae hyn yn drawiadol oherwydd bod data ar incwm aelwydydd ar draws Cymru yn fwy cyffredinol yn awgrymu pe bai oedolion sy'n fyfyrwr yn gynrychioladol o'r holl boblogaeth a phe bai pob myfyrwr cymwys yn gwneud cais am y lwfans, yna byddai rhwng 28 a 42 y cant o fyfyrwr yn gymwys ar sail trothwy incwm aelwyd<sup>9</sup>. Yn ystod blwyddyn academidd 2012/13, cefnogwyd 7,445 o fyfyrwr gan y Cynllun, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt (87 y cant) yn astudio'n llawn-amser. Roedd ychydig dros hanner (57 y cant yn ystod 2013/14) o bawb a dderbyniodd GDC (AB) dan 25 oed tra bod y 43 y cant arall yn 25 oed a throsodd. Roedd bron bawb a dderbyniodd GDC (AB) yn astudio mewn sefydliad yng Nghymru.

<sup>9</sup> Yn seiliedig ar y data sydd ar gael drwy'r Arolwg Adnoddau Teulu sy'n awgrymu bod gan 28 y cant o bob aelwyd yng Nghymru incwm wythnosol dan £300 (cyfwerth â £15,600 y flwyddyn) a bod gan 42 y cant incwm wythnosol dan £400 (£20,800 y flwyddyn) ac er mwyn bod yn gymwys am GDC (AB) byddai'n rhaid i incwm aelwyd fod dan £353 yr wythnos (a gaiff ei gyfrif yn defnyddio trothwy incwm aelwyd blynyddol uchaf GDC (AB) o £18,370 dros gyfnod 52 wythnos.

- 2.14 Roedd mwyafrif helaeth y rhai a dderbyniodd GDC (AB) (81 y cant llawn-amser a 85 y cant rhan-amser) yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13 o aelwydydd gydag incwm gweddilliol o £6,120 neu lai ac felly'n gymwys am y grant llawn o £1,500 ar gyfer dysgwyr llawn-amser a £750 ar gyfer dysgwyr rhan-amser.
- 2.15 Gwariwyd £8.2 miliwn ar y rhai a dderbyniodd GDC (AB) yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf (2012/13) oedd yn gyfwerth â £1,090 fesul dysgwr. Mae'r gwariant fesul dysgwr wedi gostwng ychydig dros y saith mlynedd diwethaf (e.e. roedd y gwariant yn ystod 2006/07 yn £1,149 fesul dyfarniad a wnaed).
- 2.16 Dirprwywyd gweinyddiaeth cynllun GDC (AB) i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr drwy gytundeb lefel gwasanaeth blynyddol a gytunwyd rhwng y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a Llywodraeth Cymru. Mae myfyrwyr yn gwneud cais uniongyrchol i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (dan frand Cyllid Myfyrwyr Cymru) am gymorth dan y Cynllun ac os dyfernir grant, maent yn ymrwmo i gytundeb dysgu gyda'u hysgol neu goleg. Caiff GDC (AB) ei dalu'n uniongyrchol bob tymor gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Fel arfer mae myfyrwyr yn astudio am flwyddyn academaidd llawn yn derbyn 40 y cant o'r grant yn ystod y tymor cyntaf a 30 y cant wedyn yn ystod yr ail a'r trydydd tymor.

### **Y Gronfa Ariannol wrth Gefn**

- 2.17 Mae'r Gronfa Ariannol wrth Gefn (CAwG) yn gynllun ar ddisgresiwn, a gyflwynwyd gyntaf yn 1991 i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio mewn Sefydliadau Addysg Bellach (ond nid chweched dosbarth ysgolion) yn ogystal â myfyrwyr Addysg Uwch oedd yn wynebu anawsterau ariannol ac a fyddai, heb gymorth, yn debyg o adael eu haddysg. Nod y cynllun yw rhoi help ariannol i fyfyrwyr y gallai eu mynediad i Addysg Bellach gael ei lesteirio gan ystyriaethau ariannol neu sy'n wynebu anawsterau ariannol yn ystod eu hastudiaethau.

2.18 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid yn uniongyrchol i Sefydliadau Addysg Bellach unigol i weinyddu arian CAwG i'w myfyrwyr ar sail disgrisiwn. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r sector Addysg Bellach wedi derbyn tua £7 miliwn o gyllid y flwyddyn. Neilltuwyd swm bychan o gyllid (£64,000) o hyn o fewn y cynllun CAwG ar gyfer Canolfannau Cymraeg i Oedolion i gefnogi eu myfyrwyr. Defnyddiwyd y dull gweithredu hwn gyntaf yn ystod 2008/09 pan sefydlwyd chwe Canolfan Cymraeg i Oedolion newydd, pump ohonynt yn seiliedig mewn sefydliadau Addysg Uwch ac un mewn sefydliad Addysg Bellach.

2.19 Ar draws y sector Addysg Bellach cefnogwyd 13,825 o fyfyrwyr drwy gynllun CAwG (AB) yn ystod 2012/13 - bu gostyngiad sylweddol yn nifer y myfyrwyr a gefnogwyd gan y Cynllun ers ei frig yn 2008/09. Cafodd cyfanswm o 23,055 o ddyfarniadau unigol<sup>10</sup> eu hariannu yn ystod 2012/13, yn golygu cyfanswm gwariant o £6.9 miliwn.

2.20 Bu hefyd ostyngiad yn nifer y ceisiadau a wnaed i'r cynllun CAwG (AB) yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf - yn ystod 2012/13, gwnaed 15,550 cais ar gyfer CAwG o gymharu er enghraifft gyda 21,115 yn ystod 2010/11. Gwrthodwyd cyfanswm o 1,725 cais gan Sefydliadau Addysg Bellach yn ystod 2012/13. Y prif reswm y gwrthodwyd cyllid i ymgeiswyr oedd nad oeddent yn cyflawni blaenoriaethau eu sefydliad ar gyfer defnyddio cyllid: roedd hyn yn cyfrif am ychydig dan hanner yr holl wrthodiadau a wnaed.

2.21 Roedd mwyafrif helaeth (89 y cant neu 12,350) y fyfyrwyr a gefnogwyd gan y cynllun yn ystod 2012/13 yn fyfyrwyr llawn-amser tra mai dim ond 11 y cant (1,475) oedd yn rhan-amser. Roedd ychydig dros hanner yr holl fyfyrwyr a gafodd gymorth (54 y cant) yn 16-18 oed, ond mewn termau ariannol, roedd dyfarniadau i fyfyrwyr dros 19 oed yn cyfrif am tua dau-draean yr holl gyllid a ddyrannwyd (ar £4.6 miliwn) gyda dim ond traean yn cael eu dyrannu i fyfyrwyr 16-18 oed.

---

<sup>10</sup> Caiff rhai myfyrwyr fwy nag un dyfarniad.

2.22 Roedd dwy ddarpariaeth yn cyfrif am bron dri chwarter yr holl wariant ar draws y cynllun CAwG (AB) yn ystod 2012/13, sef gofal plant (ar 44 y cant) gyda chlodiant yn dilyn (ar 28 y cant) - er mai dim ond 7 y cant o'r holl ddyfarniadau a wnaed drwy'r cynllun yn ystod y flwyddyn oedd yn ymwneud â gofal plant. Yn ôl y disgwyl, dyrannwyd y rhan fwyaf o'r cyllid gofal plant i rai 19 oed a throsodd. Cludiant oedd y gwariant unigol mwyaf ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed - er mewn termau ariannol roedd lefel y gwariant ar gyfer rhai 19 oed a throsodd mewn gwirionedd yn uwch (ar £1.1 miliwn o gymharu gyda £0.9 miliwn ar gyfer rhai 16-18 oed yn ystod 2012/13). Gwariwyd symiau cymharol fach ar ddarpariaethau megis deunyddiau papur a chostau anabledd yn ogystal â ffioedd arholiadau a chofrestru.

2.23 Roedd gwerth cyfartalog y cymorth ariannol a roddwyd i ymgeiswyr llwyddiannus drwy gynllun CAwG (AB) yn ystod 2012/13 yn £500 - mae hyn yn cymharu gyda £395 yn ystod 2011/12 a £359 yn ystod 2010/11. Yn ystod 2012/13 roedd y gwariant cyfartalog uchaf fesul categori dyfarniad ar gyfer gofal plant (£1,750) gyda llety yn dilyn (£1,365).

### **3 CANFYDDIADAU ALLWEDDOL O'R GWERTHUSIADAU**

#### **Cyflwyniad**

3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion allweddol pob un o'r gwerthusiadau unigol a gynhaliwyd ar gyfer cynlluniau LCA, GDC (AB) a CawG (AB) yng Nghymru.

#### **Gwerthusiad o gynllun y Lwfans Cynhaliath Addysg**

3.2 Dangosodd y gwerthusiad o'r cynllun LCA y credai mwyafrif llethol y rhanddeiliaid fod angen pendant ar gyfer y Cynllun i roi cymorth ariannol i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel mewn addysg ôl-orfodol. Roedd hefyd alw cryf am barhau'r Cynllun yn y dyfodol, er y cafodd hyn ei gymysgu gyda barn rhai o blith y sawl a gymerodd ran yn yr ymchwil y byddai system ar ddisgresiwn yn seiliedig ar asesiad o anghenion unigol yn well (a barn rhai myfyrwyr y dylai LCA fod ar gael i bawb). Teimlid mai dim ond cyfran fach iawn o fyfyrwyr oedd yn ymrestru ar eu cyrsiau yn unig i dderbyn LCA yn hytrach na'u galluogi i ddysgu. Credai ychydig o'r grŵp fod hyn yn ymyrryd ar fyfyrwyr eraill.

3.3 Er y teimlid fod y cynllun LCA yn gydnaws gyda'r cymorth ariannol Addysg Bellach oedd ar gael, roedd galw cryf gan y sector am alinio trothwyon incwm aelwydydd ar gyfer cynlluniau fel yr LCA a GDC (AB). Yn bennaf credid y dylid cynyddu'r trothwy incwm aelwyd ar gyfer y cynllun GDC (AB) i fod yn debyg i'r un ar gyfer y Cynllun LCA.

3.4 Ni chredid fod y newidiadau a weithredwyd i'r cynllun LCA yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (yn arbennig ddileu lwfansau is a thaliadau bonws<sup>11</sup>) wedi cael effaith sylweddol ar gyfranogiad myfyrwyr

---

<sup>11</sup> Cyn 2011/12, roedd nifer o haenau o LCA, yn dibynnu ar lefel incwm aelwyd, yn debyg iawn i GDC. Roedd taliadau bonws hefyd yn daladwy ar ôl cwblhau tymhorau coleg.

mewn addysg ôl-orfodol. Fodd bynnag roedd y farn ymysg cyfranwyr yn gymysg am ddileu'r taliadau bonws a arferai fod ar gael.

- 3.5 Credai'r gwerthusiad gan bennaf fod y myfyrwyr hynny oedd fwyaf mewn angen yn cael eu cefnogi drwy'r Cynllun er bod tystiolaeth i awgrymu y gellid targedu'r Cynllun yn well yn y dyfodol o gofio fod rhai oedd yn ei derbyn yn defnyddio'r cyllid ar gyfer dibenion nad oeddent yn hanfodol. Er bod galw cryf o fewn y sector am ddyrannu'r cyllid drwy ddull asesu mwy unigoledig, cydnabuwyd yn eang fod profi modd incwm aelwydydd yn ddull ymarferol ac effeithiol o ddyrannu cymorth ariannol.
- 3.6 Cydnabu'r gwerthusiad fod y gyfradd sengl unigol o lwfans o £30 yn rhesymol ac nid oedd unrhyw awydd gweld y gyfradd yma'n cael ei gostwng yn y dyfodol.
- 3.7 Canfu'r ymchwil fod yn gyffredinol lefel dda o ymwybyddiaeth o'r cynllun LCA ar draws y sector ysgolion a hefyd y sector Addysg Bellach a bod canolfannau dysgu wedi defnyddio ymdrechion hyrwyddo addas i hybu'r Cynllun. Bernid yn bennaf fod y broses gais yn weddol syml er yr ymddangosai fod rhieni a gwarcheidwaid yn cymryd y rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb am y cais LCA ei hunan. Fodd bynnag roedd cyflwyno tystiolaeth wreiddiol i gefnogi ceisiadau yn peri mwy o anhawster i ymgeiswyr LCA.
- 3.8 Canfuwyd nad oedd y cytundebau dysgu LCA a lofnodwyd rhwng canolfannau dysgu a'r sawl a dderbyniodd LCA yn cael eu hystyried fel bod yn ystyrion iawn. Er y teimlai'r rhan fwyaf o randdeiliaid, ymarferwyr, myfyrwyr a rhieni fod y gofynion mynychu i fod yn gymwys am daliadau yn cael effaith gadarnhaol ar wella presenoldeb a phrydlondeb ymysg y sawl a'u dderbyniodd, gwelsom wahaniaethau sylweddol rhwng canolfannau dysgu o ran y gofynion presenoldeb a osodwyd i fyfyrwyr dderbyn taliadau. Ymhellach, defnyddiodd canolfannau dysgu wahanol brosesau ar gyfer monitro presenoldeb. Er enghraifft ni allodd yr holl fyfyrwyr a gymerodd ran yn ein hymchwil weld eu cofnodion presenoldeb cyn i daliadau gael eu gwneud neu eu hatal. Materion yn ymwneud â

chofrestru am wersi (lle arweiniodd hyn at beidio talu LCA) oedd y ffynhonnell fwyaf o anfonlonrwydd i rai a dderbyniodd LCA a gymerodd ran yn ein hymchwil. Ar y llaw arall, soniodd canolfannau dysgu am y pwysau a ddodwyd arnynt gan y sawl a dderbyniodd LCA a'u rhieni i gymeradwyo taliadau LCA er bod materion yn ymwneud ag absenoliaeth.

- 3.9 Er y canfuwyd y defnyddiwyd cyllid LCA ar gyfer dibenion addysgol gan bennaf, fe wnaethom weld peth defnydd o'r cyllid ar gyfer dibenion heb fod yn hanfodol, gan awgrymu y gallai'r cymorth fod yn beth 'braf i'w gael' i rai myfyrwyr.
- 3.10 Yn nhermau'r gwahaniaeth a wnaed canfu'r gwerthusiad, er bod y cynnig posibl o LCA yn ystyriaeth bwysig i fyfyrwyr, y byddai mwyafrif y rhai a dderbyniodd LCA a gyfrannodd at yr astudiaeth wedi ymrestru ar eu cwrs beth bynnag - gyda'r rhai yn y chweched dosbarth yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hynny na'r rhai mewn Addysg Bellach. Teimlai cyfranwyr hefyd fod yr LCA yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i ehangu cyfranogiad (oherwydd ei ffocws ar rai o aelwydydd incwm is) a gwella cyfraddau cadw yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a phrydlondeb. Yn ddiddorol, dangosodd y dadansoddiad meintiol fod y sawl a dderbyniodd LCA yn fwy tebygol o ymrestru mewn Addysg Bellach yn gyflymach na'r sawl na dderbyniodd LCA gan eu bod yn fwy tebygol o ymrestru yn y mis Medi yn dilyn eu hastudiaethau blwyddyn 11.
- 3.11 Cafwyd barn fwy cymysg os oedd yr LCA yn gwneud gwahaniaeth i gyrhaeddiad a chyflawniad myfyrwyr - er na roddodd y gwaith ansoddol lawer o dystiolaeth gadarn yn y cyswllt hwn, roedd ymarferwyr yn awyddus i roi sylw i'r ffaith fod ymchwil bresennol ar draws y boblogaeth fyfyrwyr yn fwy cyffredinol yn dangos bod presenoldeb uwch yn arwain at gyrhaeddiad gwell. Fodd bynnag dangosodd y dadansoddiad meintiol fod y Cynllun yn cael effaith gadarnhaol yn nhermau cyrhaeddiad gyda'r sawl a dderbyniodd LCA yn fwy tebygol na'r sawl na dderbyniodd LCA i barhau â'u hastudiaethau Addysg Bellach am fwy o amser wrth edrych ar batrymau astudiaeth y rhai'n dilyn cymwysterau heblaw Safon



UG/Uwch o fewn Addysg Bellach. Ymhellach, dangosodd y dadansoddiad meintiol fod y sawl a dderbyniodd LCA a ddilynodd gymwysterau heblaw Safon UG/Uwch o fewn Addysg Bellach yn fwy tebygol o sicrhau dyfarniad Lefel 3 neu uwch na'r sawl na dderbyniodd LCA a hefyd yn fwy tebygol o ennill cymwysterau tu hwnt i'w nod gwreiddiol pan wnaethant ddechrau ar y cwrs.

3.12 Yn olaf mae'n hysbys fod traean o'r sawl sy'n derbyn LCA yn symud ymlaen i Addysg Uwch. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o un ai'r maes gwaith ansoddol na'r dadansoddiad meintiol ar gyfer yr astudiaeth hon i awgrymu fod cynnig LCA yn effeithio ar symud ymlaen i Addysg Uwch.

3.13 Ategodd ein hadolygiad o gymorth ariannol ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed y tu allan i Gymru, yn cynnwys canfyddiadau allweddol o werthusiadau trylwyr a gynhaliwyd ar draws Lloegr<sup>12</sup>, yr Alban a Gogledd Iwerddon lawer o brif ganfyddiadau'r gwerthusiad er mewn rhai achosion mae'r dystiolaeth o'r tu allan i Gymru yn awgrymu na fu'r cynlluniau LCA mor effeithlon yn nhermau'r gwahaniaeth a wnaed i gyrhaeddiad myfyrwyr. Mae'r gwerthusiadau hyn o fannau eraill yn y Deyrnas Unedig yn awgrymu:

- Pan y'i cyflwynwyd gyntaf, cafodd yr LCA effaith gadarnhaol ar gyfraddau cyfranogiad, gan gynyddu cyfranogiad gan rhwng 4 pwynt canran a 9 pwynt canran, yn dibynnu ar y grŵp blwyddyn ac astudiaeth. Nid oedd y cyfraddau is (e.e. £20 neu £10) mor effeithlon yn gyffredinol wrth gymell cyfranogiad;
- Dim ond ar gyfer lleiafrif o'r myfyrwyr sy'n ei dderbyn y mae'r LCA yn ffynhonnell hanfodol o gymorth ariannol. Byddai cyfran uchel o'r sawl a'i dderbyniodd wedi ymrestru mewn addysg ôl-orfodol beth bynnag, yn

---

<sup>12</sup> E.e. Adroddiad Ymchwil 678: Gwerthusiad o Gynlluniau Peilot Lwfans Cynhaliath Addysg: Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad Meintiol. Canolfan Ymchwil mewn Polisi Gyhoeddus (CRISP) a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS) ar gyfer yr Adran Addysg a Sgiliau (2005), hefyd Gwerthusiad o Gynllun Peilot Lwfans Cynhaliath Addysg Dwyrain Ayrshire. Canolfan Gymdeithaseg Addysgol (CES), Prifysgol Caeredin ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol yr Alban: Crynodeb (2002).

neilltuol o fewn gosodiad chweched dosbarth ysgolion. Mewn gwirionedd gall yr LCA weithredu fel cymhelliad gwrthnysig i leiafrif bach o fyfyrwyr (h.y. ymddangosant eu bod yn mynychu Addysg Bellach ar gyfer derbyn lwfans yn unig, yn hytrach na hawlio'r lwfans ar gyfer diben cefnogi eu haddysg);

- Mae cynlluniau LCA yn gyffredinol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gyfraddau cadw myfyrwyr ac nid oes unrhyw awgrym fod stigma yn gysylltiedig â derbyn y lwfans LCA;
- Mae'r dystiolaeth o effaith yr LCA ar lefelau cyrhaeddiad yn amhendant, ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu fod yr LCA yn arwain at gyfraddau uwch o gyfranogiad mewn Addysg Uwch; fodd bynnag mae'r lwfans yn tueddu i ostwng yr angen i'r sawl sy'n ei dderbyn i weithio'n rhan-amser tra byddant yn astudio.

### **Gwerthusiad o gynllun Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach)**

3.14 Canfu'r gwerthusiad y credai rhanddeiliaid fod angen pendant i gynllun GDC (AB) ar gyfer cymorth ariannol i oedolion sy'n fyfyrwyr mewn addysg ar ôl oedran addysg orfodol yng Nghymru. Dywedwyd hyn ar y sail fod oedolion sy'n fyfyrwyr yn tueddu i fod â mwy o ymrwymadau ariannol na'u cyd-fyfyrwyr iau ac roedd myfyrwyr yn neilltuol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cael anawsterau ariannol tra'r oeddent mewn addysg. Ymhellach dywedwyd hefyd fod oedolion sy'n fyfyrwyr yn tueddu i gael llai o fudd o gymorth ariannol arall megis cymhorthdal at gostau cludiant. Yn wir, heblaw am gynllun CAwG (AB), ychydig iawn o gymorth ariannol arall sydd ar gael i oedolion sy'n fyfyrwyr Addysg Bellach.

3.15 Roedd y gwerthusiad o GDC (AB) yn cwestiynu'n gryf y rhesymeg dros gael dau gynllun gweinyddol hollol ar wahân gan amlygu'r dryswch mae hyn yn ei greu ymysg y boblogaeth myfyrwyr - yn neilltuol ar gyfer y rhai sy'n symud ymlaen o LCA i GDC (AB). Galwodd myfyrwyr ac ymarferwyr yn gryf am i'r cymorth sydd ar gael drwy'r cynlluniau gweinyddol

presennol i fod yn fwy cydnaws yn nhermau meini prawf cymhwyster (yn cynnwys trothwyon incwm aelwydydd ar gyfer dyfarnu cyllid), lefel y cyllid sydd ar gael (gyda ffafriaeth am y gyfradd LCA uwch) a thaliadau rheolaidd. Fel gyda'r cynllun LCA, roedd adborth hefyd yn awgrymu fod y rhai sy'n derbyn cymorth o gynllun GDC (AB) hefyd yn manteisio ar gymorth o CAwG (AB).

3.16 Fel gyda'r cynllun LCA, canfu'r gwerthusiad yn gyffredinol fod y myfyrwyr cywir yn cael cymorth o gynllun GDC (AB) a daethant i'r casgliad fod prawf modd yn seiliedig ar incwm aelwyd yn ddull derbyniol ar gyfer dyrannu cyllid. Roedd un pwynt allweddol o gonsyrn yn ymwneud ag effaith tybiedig derbyn cymorth GDC (AB) yn ogystal â budd-daliadau lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac ofn colli buddion o'r fath - er y canfuwyd fod y nifer o oriau oedd eu hangen am astudiaeth Addysg Bellach mewn gwirionedd yn cael mwy o effaith ar y mater hwn na derbyn GDC (AB) a gaiff ei anwybyddu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

3.17 Roedd un mater allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r gwerthusiad o GDC (AB) yn ymwneud â'r oedran torri ffwrdd (sydd wedi'i osod ar 25 ar hyn o bryd) ar gyfer penderfynu os oedd myfyriwr yn byw'n annibynnol neu beidio heb fod angen iddynt brofi eu bod yn gwneud hynny. Teimlai cyfranwyr i'r astudiaeth nad oedd yn briodol defnyddio oedran torri-ffwrdd mympwyol i benderfynu os oedd myfyriwr yn byw'n annibynnol ai peidio - dywedodd rhai y dylid ystyried fod unrhyw fyfyrwr dros 19 yn byw'n annibynnol tra credai eraill y dylai'r holl ymgeiswyr am GDC (AB), faint bynnag eu hoed, orfod rhoi tystiolaeth o'r ffaith eu bod yn byw'n annibynnol.

3.18 Canfu'r astudiaeth fod yr uchafswm cyllid presennol o £1,500 yn gyffredinol ddigonol ar gyfer myfyrwyr yn byw gartref heb unrhyw ddibynyddion ond ei fod yn annigonol ar gyfer rhai'n byw'n annibynnol neu gyda dibynyddion eraill. Canfu'r gwerthusiad hefyd fod y lwfansau taliad is sydd ar gael drwy'r cynllun yn annigonol ac roedd dymuniad

ymysg cyfranwyr i weld cynyddu'r symiau hyn, mewn rhai achosion teimlid y dylai un gyfradd lwfans fod ar gael drwy'r cynllun.

3.19 Ystyrid gan bennaf fod cyllid GDC (AB) yn gyfraniad hanfodol at y rhai oedd yn derbyn cymorth a'i fod yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer dibenion cysylltiedig ag addysg a chostau byw cyffredinol.

3.20 Er y defnyddiwyd ystod eang o ddulliau hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth i farchnata'r cynllun GDC (AB), yr oedd yn gyffredinol lai o ymwybyddiaeth o'i fodolaeth ar draws y sector Addysg Bellach. Gan mai cymharol ychydig o fyfyrwyr sy'n derbyn cyllid drwy'r cynllun efallai nad yw'n syndod na ddatgelodd yr astudiaeth unrhyw elfen o stigma yn gysylltiedig gyda'i dderbyn.

3.21 Soniwyd am brofiadau cymysg am y broses cais. Roedd y prif anawsterau y soniodd ymgeiswyr amdanynt yn ymwneud â therminoleg, canfod dogfennau gwreiddiol ac anfon dogfennau gwreiddiol drwy'r post.

3.22 Canfu'r gwerthusiad fod amheuaeth am werth defnyddio cytundebau dysgu a chynigiwyd nifer o ddulliau ar gyfer cryfhau hyn. Yn nhermau gofynion presenoldeb, roedd colegau unigol yn defnyddio dehongliadau gwahanol iawn o'r canllawiau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ac roeddent yn gyffredinol yn fwy llac a hyblyg na'r gofynion ar fyfyrwyr a dderbyniai gyllid LCA.

3.23 Awgrymodd yr ymchwil y byddai'n well gan y sawl a dderbyniai GDC (AB) dderbyn taliadau mwy rheolaidd nag unwaith bob tymor fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ac yr hoffent gael eu hysbysu ymlaen llaw am swm y taliad a'r dyddiad y gallent ei ddisgwyl.

3.24 Yn nhermau'r gwahaniaeth a wnaed, canfu'r astudiaeth dystiolaeth gymysg o ran effaith cynllun GDC (AB) ar benderfyniad myfyrwyr i ymrestru mewn Addysg Bellach. Dim ond ar ôl penderfynu ymrestru ar eu cwrs yr oedd cryn nifer o fyfyrwyr wedi clywed am y Cynllun ac felly ni allai'r ffaith ei fod ar gael fod wedi dylanwadu arnynt ond roedd ei

fodolaeth yn ystyriaeth allweddol ym mhenderfyniad lleiafrif o'r sawl a'i derbyniodd i ymrestru mewn Addysg Bellach.

3.25 Yn seiliedig ar adborth ansoddol myfyrwyr ac ymarferwyr, daeth yr astudiaeth hefyd i'r casgliad er bod y cynllun wedi gwneud gwahaniaeth cymharol fach ar lefelau presenoldeb Addysg Bellach iddo gael mwy o effaith ar lefelau cadw. Ymddangosai fod yr effaith ar lefelau presenoldeb yn llai amlwg nag ar gyfer y cynllun LCA (oherwydd system lai trylwyr o orfodaeth) er ei bod yn bwysig nodi na ellid ailadrodd y dadansoddiad meintiol o fewn y gwerthusiad o gynllun LCA ar gyfer GDC (AB). Fodd bynnag, canfu'r ymchwiliad fod cynllun GDC (AB) yn hollbwysig i nifer fawr o fyfyrwyr drwy eu galluogi i aros mewn Addysg Bellach ac mewn llawer o achosion i dalu am gostau nad oeddent wedi'u rhagweld yn gysylltiedig gydag Addysg Bellach.

3.26 Ymhellach ni ddangosodd yr astudiaeth unrhyw dystiolaeth gadarn y naill ffordd neu'r llall os oedd cynllun GDC (AB) yn cael effaith ar gyrhaeddiad, cyflawniad neu ddilyniant myfyrwyr i Addysg Uwch oherwydd diffyg data ar gael ar gyfer ei ddadansoddi.<sup>13</sup>

### **Gwerthusiad o gynllun y Gronfa Ariannol wrth Gefn (Addysg Bellach)**

3.27 Canfu'r gwerthusiad o gynllun CAwG (AB) fod rhesymeg glir dros ddarparu cymorth ariannol ar ddisgresiwn i fyfyrwyr Addysg Bellach ar adegau neilltuol o angen yn ystod eu hastudiaethau a bod ei argaeledd yn ategu'r cymorth statudol sydd ar gael drwy gynlluniau LCA a CAwG (AB). Ar ôl dweud hyn roedd yn glir y defnyddid y cynllun CAwG (AB) i lenwi bylchau neilltuol o fewn darpariaeth statudol ac i gael gwared ag anghysonderau yn y cymorth sydd ar gael i osodiadau Addysg Bellach o gymharu gyda'r rhai mewn chweched dosbarth ysgolion - yn arbennig ar gyfer costau teithio myfyrwyr a thalebau cinio.

---

<sup>13</sup> Nid oedd yn bosibl cynnal ymarferiad yn paru cofnodion myfyrwyr y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a chronfa ddata Ehangu Cyfranogiad ar gyfer y diben hwn fel a wnaed fel rhan o'r gwerthusiad o'r LCA.

- 3.28 Canfu'r gwerthusiad - rywfaint yn groes i'w diben gwreiddiol - ei bod yn gyffredin defnyddio CAwG yn y sector Addysg Bellach i ariannu costau disgwylidig yn gysylltiedig ag astudio ar gyfer categorïau neilltuol o fyfyrwyr yn hytrach na chefnogi anghenion argyfwng ariannol myfyrwyr. Ymhellach, roedd cyllid CAwG (AB) fel arfer yn cael ei ddyrannu drwy brofion modd ar incwm aelwydydd (h.y. yn yr un modd â'r cynlluniau LCA a GDC (AB)), gydag unrhyw fyfyrwr o aelwyd o dan y trothwy incwm a osodwyd gan y sefydliad hwnnw yn gymwys yn awtomatig am gymorth o CAwG. Er nad oedd yr astudiaeth yn awgrymu nad oedd y cynllun CAwG (AB) yn addas i'r diben, yr oedd yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru gydnabod fod cyllid CAwG yn cael ei ddyfarnu a'i ddefnyddio yn y ffordd yma yn y dyfodol.
- 3.29 Un o brif ganfyddiadau'r gwerthusiad oedd y gwahaniaethau sylweddol a dderbyniwyd gan sefydliadau Addysg Bellach unigol o ran eu hymagwedd at CAwG, er enghraifft yn nhermau cymhwyster myfyrwyr (yn arbennig drothwyon incwm aelwydydd). Mae profiad myfyrwyr o wneud cais am gyllid hefyd wedi amrywio'n sylweddol. Mae'r adroddiad felly'n gwneud argymhelliad penodol i'r sector weithio tuag at ddull gweithredu mwy cyffredin wrth weinyddu CAwG yn seiliedig ar arfer da cyfredol. Ar ôl dweud hyn, mae'r gwerthusiad hefyd yn awgrymu y dylid caniatáu i sefydliadau gadw'r hyblygrwydd cyfredol yn nhermau gosod blaenoriaethau ar gyfer y gronfa a gweinyddu'r Cynllun ar lefel leol.
- 3.30 Yn nhermau defnydd y cyllid, canfuwyd fod yr ystod darpariaeth a ariannwyd wedi culhau mewn blynyddoedd diweddar oherwydd y pwysau a'r galw cynyddol ar y Cynllun. Canfuwyd mai ar wariant plant y bu'r gwariant mwyaf ar draws y Cynllun ac arweiniodd hyn at i rai sefydliadau dynhau eu polisïau mewn blynyddoedd diweddar i ddarparu am y galw cynyddol am gyllid ar gyfer y diben hwn. Roedd cludiant yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r cyllid sydd ar gael a chanfuwyd fod gan bolisïau awdurdodau lleol ar gludiant myfyrwyr ddylanwad sylweddol os defnyddid CAwG ar gyfer y diben hwn neu beidio ar lefel leol.

- 3.31 Gwelwyd fod y Sefydliadau Addysg Bellach unigol yn marchnata'r cynllun CAwG yn effeithlon - er nad oedd bob amser yn cael ei adnabod yn lleol gan ei enw, ond hytrach gan y ddarpariaeth y mae'n ei hariannu e.e. y cynllun pas bws.
- 3.32 Canfu'r gwerthusiad fod sefydliadau'n defnyddio eu prosesau cais eu hunain am CAwG a bod mwyafrif y myfyrwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil wedi cael y proses yn un gymharol syml. Rhai gyda sefyllfaoedd personol mwy cymhleth (e.e. wedi ymddieithrio oddi wrth eu rhieni) oedd fwyaf tebygol o fod wedi cael y broses gais yn anodd. Yn gyffredinol tueddai Sefydliadau Addysg Bellach i weithredu dyddiadau cau ceisiadau CAwG (fel arfer ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn ystod mis Medi) gydag aelod unigol o staff yn asesu ceisiadau (os nad am symiau mwy cymhleth neu fwy). Roedd taliadau uniongyrchol i wahanol ddarparwyr a thalebau wedi eu talu ymlaen llaw yn gymharol gyffredin, yn hytrach na thaliadau arian i'r sawl a dderbynai gymorth o'r gronfa eu hunain.
- 3.33 Roedd peth anfodlonrwydd ymysg sefydliadau Addysg Bellach yng nghyswllt fformiwla cyllid Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd i gyfrif dyraniad cyllid i sefydliadau Addysg Bellach unigol o fewn y Cynllun<sup>14</sup>. Ni theimlid fod y fformiwla ar gyfer gyfrif cronfeydd yn neilltuol o ymatebol i newidiadau mewn amgylchiadau na nifer myfyrwyr Addysg Bellach a chafodd y ddadl hon yn aml ei dangos gan y ffaith fod lefelau cyllid fel arfer yn cael eu cynnal flwyddyn ar flwyddyn. Ymhellach canfu'r gwerthusiad fod Llywodraeth Cymru yn tueddu i gadarnhau argaeledd y Cynllun yn hwyr yn y dydd ac roedd ansicrwydd am ddyraniadau cyllid sefydliadau unigol yn ffynhonnell consyrn i lawer o Sefydliadau Addysg Bellach. Daethom hefyd i'r casgliad ei bod yn addas fod ffi weinyddol (ar y lefel bresennol) yn parhau i fod ar gael i sefydliadau tuag at y costau yn gysylltiedig â gweinyddu'r cynlluniau CAwG.

---

<sup>14</sup> Defnyddiwyd system o ymestyn dyraniadau hanesyddol, gan y bu'n broblemus cytuno ar fformiwla newydd.

3.34 Yn nhermau'r gwahaniaeth a wnaed, daethom i'r casgliad fod CAwG yn gyffredinol yn addas i'r diben ar draws y sector Addysg Bellach a bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau i gyflawni'r amcanion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Dangosodd ein gwerthusiad bod y sector yn gyffredinol a hefyd y sawl a dderbyniodd gyllid CAwG yn credu i'r cyllid gael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad a chadw myfyrwyr ac yn achos y sector Addysg Bellach bod y gronfa yn gwneud gwahaniaeth i ymrestru, presenoldeb a chadw myfyrwyr.

3.35 Daethom i'r casgliad y dylid cadw cynllun CAwG (AB) fel cynllun disgrisiwn er yn amlygu'r pwynt y gallai fod ffyrdd mwy effeithlon o ariannu rhai o'r darpariaethau a gaiff eu cynnwys o fewn y cynllun yn y dyfodol - yn neilltuol gludiant myfyrwyr a gofal plant.

### **Argymhellion a wnaed o fewn y tri gwerthusiad**

3.36 Argymhellodd y gwerthusiad o gynllun LCA y dylid:

- Cynnal y cynllun presennol yn fras ar yr un sail, gyda thaliadau o £30 yr wythnos i fyfyrwyr cymwys mewn Addysg Bellach a hefyd mewn chweched dosbarth ysgolion;
- Gostwng trothwy incwm aelwydydd i fod yr un fath ag ar gyfer GDC (AB) a hefyd ostwng yr elfen o ddi-fuddiant o fewn y cynllun;
- Aiddosbarthu arbedion o'r newidiadau hyn i rannau eraill o'r system cyllid myfyrwyr;
- Symleiddio'r broses gais ar draws y system cyllid Addysg Bellach ac alinio systemau e.e. gyda phroses gais ar-lein a 'phasportio' cymhwyster, fel nad yw myfyrwyr yn gorfod dangos dogfennau gwreiddiol dro ar ôl tro;
- Cryfhau cytundebau dysgu ac egluro eu perthynas i godau ymddygiad sefydliadau;
- Cyflwyno prosesau mwy cyson ar gyfer presenoldeb;
- Adolygu trefniadau rheoli perfformiad i ganolbwyntio ar ganlyniadau mwy perthnasol megis cwblhau a chyrhaeddiad.



### 3.37 Argymhellodd y gwerthusiad o gynllun GDC (AB):

- Bod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi cymorth ariannol i oedolion sy'n ddysgwyr mewn Addysg Bellach yng Nghymru drwy gynllun gweinyddol a dargedwyd at rai o aelwydydd incwm isel;
- Edrych eto ar y lwfansau cyllid sydd ar gael drwy gynllun GDC (AB), gan gredu, yn ddelfrydol, y dylid cynnig un gyfradd o lwfans yn gyfwerth â'r gyfradd uchaf o £1,500 i fyfyrwyr llawn-amser o aelwydydd gyda throthwy incwm o £18,370 neu lai ond yn cydnabod y gallai hyn arwain at gynnydd mewn galw o gymharu â'r sefyllfa bresennol lle mae 82% o'r derbynwyr eisoes yn cael yr uchafswm yma;
- Gwella hyrwyddo cymorth ariannol i oedolion sy'n fyfyrwyr yn cael ei wella;
- Gwella proses gais GDC (AB) a'i symleiddio yn yr un modd â cheisiadau i gynlluniau cymorth ariannol megis CAwG (AB);
- Bod canolfannau dysgu yn ymchwilio ffyrdd o gynyddu gwerth y cytundebau dysgu a fabwysiadwyd a chyfathrebu'n gliriach yr hyn sydd ei angen gan fyfyrwyr o ran presenoldeb;
- Bod taliadau'n cael eu gwneud i fyfyrwyr yn fwy rheolaidd nag unwaith y tymor fel ar hyn o bryd a bod myfyrwyr yn cael eu hysbysu ymlaen llaw am pryd i ddisgwyl a beth fydd swm eu taliad;
- Bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio o leiaf un dangosydd perfformiad allweddol yn uniongyrchol ar gyfer y cynllun GDC (AB) sy'n dangos nodau ac amcanion y Cynllun h.y. yn ymwneud â chadw a chyrhaeddiad;
- Bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pellach i ymchwilio ystyriaethau ymarferol sefydlu cronfa benthyciadau i ategu ei pheccyn o gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer y sector.

3.38 Gwnaeth y gwerthusiad o gynllun CAwG gyfanswm o 16 argymhellion - caiff y rhai sy'n berthnasol i'r sector Addysg Bellach eu nodi islaw:

- Cadw cynllun CAwG (AB) ond bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y caiff ei defnyddio'n bennaf i dalu am gostau disgwylidig grwpiau penodol o fyfyrwyr yn hytrach nag ar argyfyngau;
- Adolygu'r fethodoleg sylfaenol ar gyfer darparu cyllid i sefydliadau unigol;
- Cadw cynllun CAwG neilltuol ar gyfer y sector Addysg Bellach (a'r sector Addysg Uwch);
- Llywodraeth Cymru i gyhoeddi hysbysiadau mwy amserol o gylchlythyrau blynyddol y cynllun CAwG a dyraniadau ariannol i sefydliadau Addysg Bellach;
- Llywodraeth Cymru i barhau i wrthbwysu rhai o gostau'r Sefydliadau Addysg Bellach wrth weinyddu cynlluniau CAwG a chadw'r cyfraddau ffioedd cyfredol;
- Yn yr hirdymor bod Llywodraeth Cymru ynghyd â'i phartneriaid yn ymchwilio ffyrdd eraill o ariannu darpariaethau teithio ar gyfer rhai 16-18 oed;
- Y byddai costau gofal hirdymor myfyrwyr Addysg Bellach yn cael eu darparu'n well drwy ddarpariaeth statudol fel sy'n digwydd gyda myfyrwyr Addysg Uwch;
- Bod Llywodraeth Cymru'n cadw'r grwpiau blaenoriaeth a ddynodwyd o fewn y cynllun ond yn ystyried cynnwys 'gofalwyr' fel grŵp blaenoriaeth newydd;
- Bod Llywodraeth Cymru, mewn trafodaeth gyda Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch, yn ystyried p'un ai a fyddai'n well darparu ar gyfer anghenion defnyddwyr ffransais Addysg Uwch sy'n astudio mewn sefydliadau Addysg Bellach yn y sefydliad Addysg Bellach ei hun ac os felly, eu hariannu yn unol â hynny;
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei gynllun CAwG y dylai Sefydliadau Addysg Bellach gael eu cynrychioli ar grwpiau cynghori

CAwG (AB);

- Bod Sefydliadau Addysg Bellach yn cydweithio drwy Grŵp Cyngori CAwG yn ogystal â NASMA (Cymdeithas Genedlaethol Cyngorwyr Ariannol Myfyrwyr) lle'n berthnasol i gydweithio i ddatblygu dull gweithredu mwy cyson tuag at CAwG;
- Bod sefydliadau'n symud tuag at fabwysiadu arfer da cyfredol drwy ddweud y byddai'n *ddymunol* i'r rhai sy'n derbyn cymorth CAwG i wneud cyfraniad at y costau a gaiff eu hariannu drwy CAwG;
- Bod Llywodraeth Cymru yn annog Sefydliadau Addysg Bellach drwy'r Grŵp Cyngori i fabwysiadu uchafswm lefel mynegol o gyllid fesul myfyriwr drwy gynllun CAwG.

## 4 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

### Casgliadau

- 4.1 Bod Llywodraeth Cymru yn gwario dros £40 miliwn y flwyddyn ar gefnogi myfyrwyr Addysg Bellach yng Nghymru drwy dri phrif gynllun cymorth ariannol. O'r rhain, y cynllun LCA sy'n cyfrif am fwyaf gwarant tra buddsoddir llai ar gynlluniau GDC (AB) a CAwG (AB). Y cynllun LCA sy'n cefnogi'r nifer fwyaf o fyfyrwyr - o ran rhifau absoliwt a hefyd fel cyfran o'r holl fyfyrwyr Addysg Bellach sy'n dod o fewn cymhwyster oedran y cynllun. Ar y llaw arall y cynllun GDC (AB) sy'n cefnogi'r nifer leiaf o fyfyrwyr ac sy'n cynnig ar gyfartaledd y lefel uchaf o gyllid fesul myfyriwr o'r tri chynllun, fel y dangosir yn Nhabl 2 islaw:

**Tabl 2: Crynodeb o Gynlluniau Cymorth Ariannol Addysg Bellach**

2012/13	Cyllid	Nifer y myfyrwyr a gafodd gymorth	Cyllid cyfartalog fesul myfyriwr
LCA	£25 miliwn	29,761	£826
GDC (AB)	£8 miliwn	7,445	£1,090
CaWG (AB)	£7 miliwn	13,825	£506
CYFANSWM	£40 miliwn	n/a	n/a

Ffynhonnell: Data a gyflwynwyd yn adroddiadau gwerthuso Old Bell 3 yn rhoi sylw i gynlluniau CAwG (AB), GDC (AB) a'r LCA.

- 4.2 Mae dau o'r cynlluniau hyn ar gyfer cymorth ariannol Addysg Bellach yn rhai gweinyddol gyda nodau ac amcanion tebyg iawn yn nhermau cymell y rhai ar ôl oedran addysg orfodol i aros neu ddychwelyd i Addysg Bellach. Fodd bynnag, mae'r ddau gynllun gweinyddol yn targedu cohort penodol o fyfyrwyr a wahaniaethir yn bennaf gan oedran, eto mae ganddynt bolisiau a phrosesau gweinyddu gwahanol iawn. Mae'r trydydd cynllun yn gynllun ar ddisgresiwn ac er iddo gael ei sefydlu i roi cymorth ariannol i fyfyrwyr Addysg Bellach ar adeg o newid yn ystod eu hastudiaethau, mewn gwirionedd caiff y cynllun ei weinyddu mewn ffordd

llawer mwy systematig gan sefydliadau Addysg Bellach i ariannu costau a darpariaethau a gynlluniwyd. Yn hynny o beth mae cynllun CawG (AB) ar ddisgresiwn yn debyg mewn llawer o agweddau i'r ddau gynllun gweinyddol - i raddau helaeth gan fod dyfarnu cyllid ym mwyafrif yr achosion yn aml yn gysylltiedig gyda meini prawf tebyg megis y cynlluniau LCA a GDC (AB).

- 4.3 Credwn ei bod yn anodd iawn cyflwyno achos pam fod y sector Addysg Bellach angen dau gynllun cyllid ariannol gweinyddol gwahanol yn neilltuol oherwydd bod llawer o'r adborth gan y sector a'n set ddilynol o argymhellion ar gyfer cynllun GDC (AB) yn neilltuol yn dangos manteision sicrhau mwy o aliniad rhwng y cynlluniau LCA a GDC (AB). Ein casgliad felly yw y byddai'n synhwyrol i Lywodraeth Cymru ystyried uno'r cynlluniau gweinyddol cyfredol (LCA a GDC (AB)) a mabwysiadu un brand ar gyfer y cynllun newydd hwn ar draws y sector Addysg Bellach. Byddai hyn yn helpu i gyflawni nifer o'r argymhellion a wnaed yng nghyswllt darparu cyllid ar gyfer Addysg Bellach i oedolion - yn cynnwys manteision marchnata a hyrwyddo un grant ar draws y sector, gan sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o argaeledd cymorth a dyfarnu taliadau mwy rheolaidd nag sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer oedolion sy'n fyfyrwyr.
- 4.4 Mewn egwyddor, mae'n debygol y byddai sefydlu cynllun cyffredin gydag incwm trothwy aelwyd cyffredin (yn neilltuol os caiff ei osod ar lefel is bresennol y cynllun GDC (AB) yn arwain at beth ailddosbarthu cymorth ymaith o fyfyrwyr 16-18 oed a thuag at fyfyrwyr hŷn mewn Addysg Bellach - a gallai yn wir ysgogi mwy o alw gan ddychwelwyr hŷn i Addysg Bellach. Credwn y byddai hyn yn ganlyniad derbyniol i ddiwygio ac y byddai'n adlewyrchu tystiolaeth y gwerthusiad fod cyfran uwch o'r myfyrwyr hŷn hynny a gaiff gymorth gan GDC (AB) yn ddibynnol iawn ar y cymorth i'w galluogi i gymryd rhan nag ar gyfer rhai 16-18 oed ar hyn o bryd. Byddai hyn hefyd yn symud Cymru yn fwy tuag at fodel yr Alban a Gogledd Iwerddon lle mae trothwyon incwm ar gyfer cymorth ar gyfer oedolion sy'n fyfyrwyr yn gyffredinol uwch nag ar gyfer yr LCA.

- 4.5 Daethom hefyd i'r casgliad y byddai'n synhwyrol mewn egwyddor i gynnal cynlluniau cyllid statudol ac ar ddisgresiwn ar draws y sector Addysg Bellach. Fodd bynnag credwn y caiff y rhesymeg yma ei danseilio rywfaint gan y ffaith y caiff y cynllun cyllid ar ddisgresiwn presennol ei weinyddu mewn ffordd debyg iawn i'r cynlluniau gweinyddol sydd ar gael ar draws y sector. O gofio y dengys y gwerthusiad o CAwG (AB) fod y cyllid i raddau helaeth yn cael ei ddefnyddio mewn modd systematig iawn - a ddyfernir yn aml ar sail cyflawni meini prawf trothwyon incwm aelwydydd ac ar gyfer costau a ddynodwyd ymlaen llaw - ein casgliad yw bod achos cryf dros ailadrodd rhai o'n casgliadau allweddol o'r adolygiad hwnnw eto, yn arbennig gan y byddai ffyrdd mwy effeithlon o ariannu rhai o'r darpariaethau a ddarperir ar eu cyfer ar hyn o bryd drwy gynllun CAwG (AB) fel y nodir yn 4.6.
- 4.6 Yn ddelfrydol byddai maes chwarae gwastad ar draws Cymru yng nghyswllt mynediad i gludiant am ddim a chymorth gyda chostau gofal plant ar gyfer y rhai o aelwydydd incwm isel sy'n astudio mewn Sefydliadau Addysg Bellach, yn hytrach na'r rhain yn cael eu hariannu drwy gynllun CAwG. Fodd bynnag, byddai symud i system arall yn cynnwys, yn achos cludiant, ymchwilio dulliau eraill a mwy cyson gydag awdurdodau lleol o ariannu costau cludiant myfyrwyr Addysg Bellach gan fod gan bolisiâu awdurdodau lleol ddylanwad uniongyrchol ar ddefnydd CAwG ar gyfer y diben hwn. Fodd bynnag sylweddolwn fod awdurdodau lleol yn wynebu pwysau ariannol sylweddol ar hyn o bryd oherwydd toriadau cyllideb a bod y toriadau hyn, mewn rhai achosion, wedi arwain at adolygiad o bolisiâu presennol ar gludiant addysg ôl-16. Rydym hefyd yn sylweddoli y byddai cyflwyno darpariaeth statudol ar gyfer gofal plant (yn yr un ffordd ag ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch) yn golygu costau ariannol sylweddol.
- 4.7 Credwn y gellid darparu ar gyfer y darpariaethau strwythurol hyn drwy ddulliau eraill, yn hytrach na drwy gynllun CAwG (AB). Yn y tymor hwy, wedyn byddai cwmpas i gynllun CAwG (AB) ddod yn gronfa ar

ddisgresiwn sylweddol llai ac wedi'i thargedu ymhellach lle dyfernir cymorth yn benodol ar sail angen unigol (yn hytrach nag ar sail flanced i'r rhai o aelwydydd incwm isel). Yn y cyfamser fodd bynnag mae'n pwysleisio tanlinellu y canfu ein gwerthusiad fod pwysau ariannol sylweddol ar y cynllun CAwG adeg ein gwaith maes gyda mwy o alw nag o gyllid ar gael, a gallai yn y tymor byr fanteisio o gynnydd yng nghyfanswm ei lefel cyllid nes y caiff elfennau megis gofal plant a chludiant eu trin.

4.8 O gofio fod dyfarniad y tri chynllun presennol wedi'i seilio i raddau helaeth ar drothwy incwm aelwydydd, mae'n dilyn y caiff yr un myfyrwr yn aml eu cefnogi gan ddau o'r cynlluniau hyn ar yr un pryd. Yn ychwanegol nid yw dyfarnu cyllid yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau lleol, yn neilltuol bolisïau awdurdodau lleol ar gludiant ac amgylchiadau gwahanol ar gyfer ysgolion a myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Bellach. Fel canlyniad credwn fod diffyg cydraddoldeb sylweddol o fewn y system cymorth ariannol ar draws y sector Addysg Bellach ar hyn o bryd ac y dylid trin hyn fel mater o flaenoriaeth. Er enghraifft gallai myfyriwr mewn Sefydliad Addysg Bellach fod yn derbyn LCA a hefyd arian CAwG mewn un ardal yn ogystal â bod â hawl i gludiant am ddim neu ratach. Mewn ardal arall, gellid disgwyl i fyfyrwr Sefydliadau Addysg Bellach nad ydynt ond yn derbyn LCA i ddefnyddio'r lwfans hwnnw i dalu am eu costau teithio. Mae felly achos cryf iawn dros i unrhyw gynllun cymorth ar ddisgresiwn fod yn union hynny - lwfans ar ddisgresiwn sy'n rhoi ystyriaeth i amgylchiadau unigol - yn hytrach na dim ond cael ei benderfynu ar sail incwm aelwyd.

4.9 Yn olaf, i grynhoi, yn seiliedig ar adborth ymarferwyr a myfyrwyr a chydabod hyd yn oed ar y lefel uchaf, bod y cymorth ariannol sydd ar gael drwy'r LCA a GDC (AB) yn gyfyngedig iawn, yn neilltuol ar gyfer y rhai sy'n byw'n annibynnol, credwn y byddai'n werth ystyried darparu cronfa fechan ar gyfer benthyciadau Addysg Bellach yn y dyfodol i ategu'r pecyn cymorth i fyfyrwyr sydd ar gael. Fodd bynnag diben y gronfa fenthyciadau hon fyddai cefnogi costau byw cyffredinol, yn

hytrach nag ar gyfer ffioedd hyfforddiant fel sy'n digwydd gyda'r Gronfa Benthycu Dysgu Uwch yn Lloegr. Byddai manteision yng nghyswllt asesu galw a chostau gweinyddiaeth megis cynllun yn peilota hyn ar raddfa fach iawn i ddechrau.

## **Argymhellion Strategol**

Gwnawn y 14 argymhelliad strategol dilynol am gyllid myfyrwyr ar ôl oedran addysg ôl-orfodol.

**Argymhelliad 1** O gofio am y dystiolaeth fod cymorth ariannol yn hollbwysig wrth alluogi o leiaf gyfran y myfyrwyr o aelwydydd incwm isel i barhau mewn Addysg Bellach neu ddychwelyd i Addysg Bellach na fedrai wneud hynny fel arall, ac yn cefnogi cadw a phresenoldeb myfyrwyr, gan roi buddion ar lefel yr unigolyn a'r sefydliad, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gwneud pob ymdrech i ddarparu'r un swm o gyllid blynyddol ar gyfer cymorth myfyrwyr Addysg Bellach am y dyfodol rhagweladwy.

**Argymhelliad 2** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu'r cyllid hwn drwy gynlluniau gweinyddol ac ar ddisgresiwn.

**Argymhelliad 3** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ariannu un cynllun gweinyddol ar gyfer myfyrwyr sydd mewn addysg ôl-orfodol mewn Addysg Bellach a hefyd ysgolion cyn belled â'u bod yn cyflawni meini prawf incwm aelwydydd. Yn ein barn ni, o gofio bod brand LCA wedi ennill y blwyf ac yn adnabyddus ar draws y sector, byddai manteision sylweddol mewn addasu ac ymestyn y cynllun hwn i gynllun LCA pob-oedran ar gyfer Addysg Bellach yn hytrach na mabwysiadu brand newydd e.e. y Grant Addysg Bellach.

**Argymhelliad 4** Argymhellwn y dylid gosod meini prawf incwm aelwydydd ar gyfer y cynllun gweinyddol newydd yma ar lefel debyg i drothwy cyfredol Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) o £18,370 neu lai,



gan y bydd hyn yn sicrhau y targedir cyllid at y rhai sydd fwyaf mewn angen. Argymhellwn ymhellach y dylid defnyddio cyfradd ychydig yn uwch o incwm aelwydydd ar gyfer y myfyrwyr dibynnol hynny sy'n dod o aelwydydd gyda sibliogiaid eraill sy'n dal i fod mewn addysg.

Sylweddolwn y bydd y trothwy yma'n is nag a ddefnyddir ar gyfer myfyrwyr 16-18 oed ar hyn o bryd drwy'r cynllun LCA ac y bydd felly'n sicrhau rhai arbedion ariannol ar gyfer Llywodraeth Cymru - fodd bynnag credwn y bydd angen defnyddio unrhyw arbedion a wnaed mewn cefnogi rhai 16-18 oed ar gyfer galw cynyddol am gymorth ariannol ymysg myfyrwyr sy'n oedolion. Os bydd mwy o arbedion ar gael, yna byddem yn argymhell y dylid defnyddio'r rhain i lunio datrysiadau mwy boddhaol i broblemau mynediad i gludiant am ddim a gofal plant ar gymhorthdal neu gael eu cyfeirio at bot disgrisiwn CAwG (AB).

**Argymhelliad 5** Argymhellwn y dylid gosod gwerth y dyfarniad ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n derbyn y cynllun gweinyddol newydd ar y gyfradd a ddefnyddiwyd ar hyn o bryd gan y cynllun LCA, sef £30 yr wythnos mewn addysg. Fodd bynnag, byddem hefyd yn argymhell y dylai lwfans uwch fod ar gael i fyfyrwyr a all fodloni meini prawf ychwanegol yn ymwneud ag (a) os ydynt yn byw'n annibynnol a/neu (b) eu bod yn gyfrifol am ddibynyddion eraill. Mewn byd delfrydol byddem yn argymhell isafswm lwfans o £40 yr wythnos ar gyfer y myfyrwyr hyn. Argymhellwn ddileu'r polisi y caiff myfyrwyr 25 oed a throsodd eu hystyried yn awtomatig fel myfyrwyr annibynnol ond awgrymu yn lle hynny fod angen i unrhyw fyfyrwr roi tystiolaeth eu bod yn byw'n annibynnol er mwyn i'w hincwm personol gael ei ystyried ar gyfer eu cais am gyllid. Argymhellwn hefyd ddileu'r dyfarniadau lwfans is sydd ar gael ar hyn o bryd drwy gynllun LCA (AB) - er y byddem yn dadlau dros ddarpariaeth cyfradd is ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, a osodir ar hanner y lwfans llawn-amser.

**Argymhelliad 6** Argymhellwn fod llawer o'r egwyddorion arfer da a ddefnyddir o fewn y cynllun LCA yn cael eu cadw yn y system weinyddol newydd - yn arbennig dalu lwfansau bob bythefnos yn ogystal â gweithgaredd hyrwyddo effeithlon y Cynllun ei hun.

**Argymhelliad 7** Argymhellwn ymhellach fod myfyrwyr sy'n derbyn cymorth drwy'r cynllun gweinyddol newydd yn cael eu lwfans ar sail presenoldeb yn eu sefydliad addysgol, yn yr un modd ag a wneir ar hyn o bryd drwy'r cynllun LCA. Fodd bynnag byddem yn awgrymu'n gryf y dylid cysylltu taliadau gyda chofnodion presenoldeb dyddiol h.y. fod myfyriwr llawn-amser yn derbyn £6 neu £8 y dydd ar gyfer pob diwrnod y maent eu mynychu eu man addysg ac felly na chânt eu cosbi drwy golli eu holl lwfans wythnosol os collant un diwrnod yr wythnos o addysg. Yn gysylltiedig â hyn ailadroddwn rai o'r argymhellion blaenorol a wnaethom yng nghyswllt cynllun y LCA ac awgrymu eto y dylai canolfannau dysgu fod â pholisïau mwy cyson yng nghyswllt presenoldeb ar gyfer cynllun gweinyddol newydd yn ogystal â mwy o gysondeb yn eu harferion i fonitro presenoldeb. Byddai hyn yn arwain at ddarpariaeth decach, yn neilltuol o amgylch diffyg presenoldeb oherwydd salwch neu salwch dibynyddion.

**Argymhelliad 8** Byddai argymhelliad a wnaed fel rhan o'r gwerthusiad o'r cynllun LCA yn gysylltiedig â'r angen i wneud cytundebau dysgu yn gryfach ac yn fwy ystyrion yn dal i fod yn weithredol yng nghyd-destun cynllun gweinyddol newydd. Ailadroddwn ein hargymhelliad y dylai'r cytundebau dysgu hyn amlinellu rôl canolfannau dysgu (yn cynnwys y disgwyliadau ar staff addysgu yn nhermau cofrestru) a sut y cyfeiriant at godau ymddygiad sefydliadau. Yn y dyfodol dylai cytundebau dysgu hefyd osod y gofynion yn gliriach am bresenoldeb y sawl sy'n derbyn LCA.

**Argymhelliad 9** I gyd-fynd â'r cynllun gweinyddol newydd hwn argymhellwn ymhellach fod Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido cynllun cymorth ar ddisgresiwn CAwG (AB) i ategu'r cynllun gweinyddol newydd. Fodd bynnag pwysleisiwn er mwyn i'r cynllun cymorth ar ddisgresiwn yma fod yn fwyaf effeithlon:

- yn yr hirdymor bod Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad gyda'i phartneriaid yn ymchwilio dulliau eraill o ariannu darpariaethau teithio ar gyfer myfyrwyr ôl-16 lle caiff hyn ei dalu ar hyn o bryd drwy'r cynllun LCA (AB).
- yn yr hirdymor byddai'n well darparu ar gyfer costau gofal plant myfyrwyr Addysg Bellach drwy ddarpariaeth statudol fel sy'n digwydd gyda myfyrwyr Addysg Uwch yng Nghymru a hefyd mewn Addysg Bellach mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

**Argymhelliad 10** Argymhellwn y dylai cyllid y cynllun ar ddisgresiwn barhau i fod ar gael yn uniongyrchol i sefydliadau unigol i'w weinyddu ar sail disgresiwn. Fodd bynnag byddem yn argymhell y dylid dyfarnu'r cyllid drwy'r cynllun hwn i unigolion ar sail angen yn hytrach na myfyrwyr yn cymhwyso ar sail dod o aelwydydd gydag incwm islaw trothwy neilltuol. Byddem yn awgrymu'n gryf fod y cynllun ar ddisgresiwn yn dyfarnu cyllid ar sail dadansoddiad incwm-gwariant (ac o'r herwydd y rhoddir ystyriaeth i dderbyn y lwfans gweinyddol newydd fel ffynhonnell incwm). Credwn y byddai hyn yn mynd i'r afael â pheth o'r anghydraddoldeb sydd i'w weld o fewn y system ar hyn o bryd yn ogystal â chefnogi rhai gydag anghenion neilltuol ond sydd ychydig dros y trothwyon incwm a osodwyd ar gyfer y cynllun gweinyddol.

**Argymhelliad 11** Argymhellwn y dylid symleiddio'r prosesau cais ac yn neilltuol y gofynion am dystiolaeth ar gyfer y cynllun gweinyddol a'r cynllun ar ddisgresiwn.

**Argymhelliad 12** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pellach i ymchwilio os yw'n ymarferol treialu cronfa benthyciad Addysg Bellach fach i ategu (yn hytrach na disodli) y pecyn o gymorth cyllid grant ar gyfer y sector yn y dyfodol. Prif amcan y gronfa fenthyciadau hon fyddai cefnogi costau byw myfyrwyr Addysg Bellach (yn hytrach na thalu am ffioedd cyrsiau Addysg Bellach fel sy'n digwydd yn Lloegr gan fod angen i fyfyrwyr yno dalu am ddarpariaeth Addysg Bellach). Byddem yn awgrymu'n gryf y dylid gosod uchafswm ar werth unrhyw fenthyciad y

gallai myfyriwr Addysg Bellach gael mynediad iddo tra'n astudio mewn Addysg Bellach ac y dylai'r uchafswm hwnnw fod tua £500 y myfyriwr y flwyddyn.

**Argymhelliad 13** Awgrymwn fod Llywodraeth Cymru, mewn cysylltiad â'i sefydliadau partner, yn rhoi ystyriaeth briodol i'n hargymhellion ar gyfer newid tirlun cymorth ariannol i fyfyrwyr o fewn Addysg Uwch drwy fodelu cost a buddion gweithredu unrhyw newidiadau polisi. Byddai gwaith modelu o'r fath hefyd yn helpu i ddynodi a deall unrhyw oblygiadau ar gyfer grwpiau neilltuol yn cynnwys grwpiau o fyfyrwyr a ddiogelir.

**Argymhelliad 14** Ein hargymhelliad olaf yw bod Llywodraeth Cymru yn gosod dangosyddion perfformiad priodol ar gyfer y cynlluniau cyllid Addysg Bellach gweinyddol a hefyd ar ddisgresiwn. Dylai'r dangosyddion perfformiad hyn adlewyrchu'n well y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni ar gadw a chyrhaeddiad ac awgrymwn fod y cynllun gweinyddol yn defnyddio dangosydd perfformiad yn gysylltiedig â'r gyfran o dderbynwyr sy'n ennill y cymhwyster (neu gymhwyster uwch) y gwnaethant ymrestru ar ei gyfer tra bod y cynllun ar ddisgresiwn yn defnyddio dangosydd yn cyfeirio at gadw a/neu gwblhau cwrs. Fel yr argymhellwyd yn flaenorol byddem hefyd yn disgwyl i ganolfannau dysgu fonitro a chasglu'r allbynnau hyn er mwyn medru rhoi adroddiad ar berfformiad y ddau gynllun a weithredir.